

## Genedigaeth Myfanwy

Rhidian Griffiths

Hi yw un o'r enwocaf o ferched y genedl, yn annwyl gan lawer, yn wrthun gan rai. Ple bynnag y ceir corau meibion, oddi mewn ac oddi allan i Gymru, bydd canu arni, rhangan syml, sentimental, arch-Fictoraidd Joseph Parry, sydd i lawer, yn enwedig i Gymry alltud, yn crynhoi Cymreictod traddodiadol ac yn personoli hiraeth am yr henwlad. Fe'i crewyd gan bedwar dyn: Thomas Gwallter Price, 'Cuhelyn' (1829-69), awdur y gerdd Saesneg 'Arabella'; Richard Davies, 'Mynyddog' (1833-77), a luniodd y gerdd Gymraeg dan y teitl 'Myfanwy'; Joseph Parry (1841-1903), y cerddor lliwgar a dawnus a gyfansoddodd fiwsig iddi; ac Isaac Jones (1835-99), y cyhoeddwr o Dreherbert, Rhondda, a'i cyflwynodd hi gyntaf i'r byd yn 1875.<sup>1</sup>

Gellid dweud am Cuhelyn ei fod fel dyn a aned o wraig, 'yn fyr o ddyddiau a llawn o helbul'. Yn ystod ei oes fer bu mewn helynt droeon, nes peri awgrymu mai 'Cuhelynt' a ddylai gael yn enw barddol yn hytrach na 'Cuhelyn'. Cafodd yrfa gyffrous fel newyddiadurwr a golygydd papurau newydd yng Ngogledd America, a chael ei ddirwyo a mynd i garchar am athrod. Ond ymddiddorai hefyd mewn barddoniaeth, ac roedd yn gyfaill i John Jones, 'Talhaiarn'. Ef a ddaeth â Llew Llwyfo i'r Unol Daleithiau yn 1856 i ddiddanu'r Cymry yno, ac yn 1857 cychwynnodd newyddiadur wythnosol dan yr enw *Y Bardd*, a threfnu i lenorion o Gymru gyfrannu iddo. Ymddangosai ei gerddi yn ei bapurau ei hun ac ar dudalennau newyddiaduron y Cymry a gyhoeddidd yng Ngogledd America, ac y mae eu harddull yn nodweddiadol o'u cyfnod. Dyma, er enghraifft, ei englyn i'r 'Haul' a welir yn *Y Drych a'r Gwyllyddydd*, 25 Ebrill 1857:

Dëon haf wrth dy neifion, - drws eurawg  
I drysorau'r Cristion;  
Gwiw lywydd pob goleuon, twf a gwres,  
Yw yr Haul eres, O! arial wron.

Yr un ieithwedd farddonlyd a geir yn ei gerdd Saesneg, 'Arabella':

Why shoots wrath's lightning, Arabella  
From those jet eyes? what clouds thy brow?  
Those cheeks that once with love blushed on me,  
Why are they pale and bloodless now?

<sup>1</sup> Ceir manylion am Cuhelyn, Mynyddog a Joseph Parry yn *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1953).

Why bite those lips that bare my kisses?  
Where lurks the smile that won my heart?  
Why wilt be mute, Oh, Arabella;  
Speak, love, once more before we part.

What have I done, Oh, cruel fair one,  
To merit e'en a frown from thee?  
Am I too fond, or art thou fickle?  
Or play'st thou but to humble me?  
Thou art my own by word and honour,  
And wilt thou not thy word fulfil?  
Thou need'st not frown, Oh, Arabella,  
I would not have thee 'gainst thy will.

Full be thy heart with joy for ever,  
May time ne'er cypher on thy brow;  
Through life may beauty's rose and lily  
Dance on thy healthy cheeks as now;  
Forget thy broken vows, and never  
Allow thy wakeful conscience tell  
That thou did'st e'er mislead or wrong me;  
Oh, Arabella, fare thee well.

Wn i ddim ble y cyhoeddwyd hon, os cyhoeddwyd hi o gwbl cyn iddi ymddangos yng ngosodiad Joseph Parry. Rhaid ei bod wedi'i hysgrifennu cyn 1869, blwyddyn marw Cuhelyn; a chan i Parry dreulio'r cyfnod o 1854 hyd 1874 yn yr Unol Daleithiau (ac eithrio cyfnodau o astudio yn Llundain), yn nhalaith Pennsylvania lle bu Cuhelyn yntau'n byw, mae'n eithaf tebyg bod y ddau yn adnabod ei gilydd. Gallai Parry fod wedi cael y geiriau gan y bardd ei hun, neu wedi eu codi o gyhoeddiad Americanaidd. Ai 'Arabella' felly, yn hytrach na 'Myfanwy', yw'r gerdd wreiddiol? Dyna a ddywedir mewn adolygiad ar argraffiad cyntaf y gân, ac mae'r dystiolaeth amgylchiadol yn cadarnhau'r dybiaeth honno, er bod y copi yn dynodi'r geiriau Cymraeg o flaen y Saesneg?<sup>2</sup>

Ni wn am dystiolaeth ynglŷn â phryd y lluniodd Parry ei fiwsig ef, er bod traddodiad a gofnodir gan Emrys Cleaver yn mynnu mai ar ôl iddo ddod i'r Gadair Gerdd yn Aberystwyth yn 1874 y bu hynny.<sup>3</sup> O blaid bodolaeth 'annibynnol' cerdd Cuhelyn mae'n werth nodi hefyd fod gosodiad cerddorol arall ohoni wedi ymddangos yn 1893. Gwaith T.J. Davies, cerddor o gylch

<sup>2</sup> *Y Gerddorfa*, cyf. 3 (1875), t. 44: 'Mae y geiriau Seisnig gan y diweddar Cuhelyn a cheir aralleiriad Cymraeg o honynt gan Mynyddog'.

<sup>3</sup> Emrys Cleaver, *Gwŷr y Gân* (Llandybïe, 1964), t.16.

Abertawe a ymfudodd i Ogledd America, yw'r gosodiad hwn i leisiau meibion, ac fe'i cyhoeddwyd gan D.O. Evans yn Youngstown, Ohio. Yn y gosodiad hwn troes 'Arabella' yn 'Leonora', ond yr un gerdd yw hi:

Why burns deep anger, Leonora,  
In those blue eyes? what clouds thy brow,  
Those cheeks that once in love blushed on me  
Why are they pale and mirthless now?  
Why cool those lips, that bear my kisses,  
Where lurks the smile that won my heart,  
Why wilt be mute, Oh, Leonora,  
Speak love once more before we part.

Does dim geiriau Cymraeg i'w gweld ar y gosodiad hwn o gwbl, na 'Myfanwy' na neb arall.

Roedd Mynyddog, awdur y geiriau Cymraeg a ymddangosodd yng ngosodiad Parry, yn fardd ac yn ddiddanwr poblogaidd, ac yn arweinydd eisteddfodau a chyngherddau heb ei ail. Cyhoeddwyd tair cyfrol o'i farddoniaeth yn ystod ei oes, sef *Caneuon Mynyddog* (1866), *Yr Ail Gynyg* (1870), a *Y Trydydd Cynyg* (1877), ac ni welir 'Myfanwy' yn yr un o'r rhain. Ond mae'n sicr i Mynyddog lunio nifer o gerddi i'w canu, gan gynnwys cyfieithiadau neu addasiadau o ganeuon Saesneg ac Americanaidd. Mae'n sicr hefyd i'r cyhoeddwr Isaac Jones gomisiynu Mynyddog i lunio geiriau: fis Mehefin 1875 yr oedd yn ysgrifennu at Gwilym Gwent yn Wilkesbarre, U.D.A., ac yn gofyn iddo gyfansoddi cerddoriaeth ar gyfer geiriau Mynyddog 'Y Teiliwr a'r Crydd', a ysgrifennwyd 'ar fy nghais'.<sup>4</sup> Mae'n bur debyg, felly, mai ar gais y cyhoeddwr y lluniodd Mynyddog ei gerdd i gyd-fynd â gosodiad Parry. Y geiriau hynny oedd i ennill eu plwy, mae'n debyg am eu bod cymaint gwell na cherdd Cuhelyn:

Paham mae digter, O! Myfanwy,  
Yn llenwi'th lygaid duon di?  
A'th ruddiau tirion, O! Myfanwy,  
Heb wrido wrth fy ngweled i?  
Pa le mae'r wên oedd ar dy wefus  
Fu'n cyneu cariad ffyddlon ffol?  
Pa le mae sain dy eiriau melus  
Fu'n denu 'nghalon ar dy ôl?

---

<sup>4</sup> Llyfrgell Genedlaethol Cymru, llsgr. NLW21817D, 8 Mehefin 1875.

Pa beth a wnaethum, O! Myfanwy,  
I haeddu gwg dy ddwyrudd hardd?  
Ai chwareu'r oeddit, O! Myfanwy,  
A thànau euraidd serch dy fardd?  
Wyt eiddo im' trwy gywir amod,  
Ai gormod cadw'th air i mi?  
Ni fynaf byth mo'th law, Myfanwy,  
Heb gael dy galon gyda hi.

Myfanwy, boed yr oll o'th fywyd,  
Dan heulwen ddysglaer canol dydd,  
A boed i rosyn gwridog iechyd  
I ddawnsio ganmlwydd ar dy rudd;  
Anghofia'r oll o'th addewidion,  
A wneist i RYWUN eneth ddèl,  
A dyro'th law, Myfanwy dirion,  
I ddim ond dweyd y gair - Ffarwel!

Yn 1882, bum mlynedd wedi marw Mynyddog, cyhoeddodd Isaac Jones gyfrol o'r cerddi a luniodd y bardd ar gyfer darnau cerddorol a ymddangosodd o wasg Jones. Yn *Pedwerydd Lyfr* [sic] *Mynyddog* gwelir pedair ar hugain o gerddi Cymraeg ynghyd â'r geiriau cyfatebol Saesneg, yn eu plith 'Myfanwy' ac 'Arabella'. Ni ddywedir bod un yn gyfieithiad o'r llall, ond y mae'r ffaith i Isaac Jones gyhoeddi'r casgliad yn awgrymu bod geiriau Mynyddog yn eiddo iddo ef, a hwyrach wedi'u llunio ar ei gais bob un.

Ymddangosodd gosodiad Joseph Parry yn un o gyfres o chwe darn o'i waith a gyhoeddodd Isaac Jones yn 1875. Y teitl a roddwyd i'r gyfres, y talodd y cyhoeddwr £12 i'r cyfansoddwr amdani, oedd 'Telyn Cymry' [sic]. Cynhwysai chwe ffurf gerddorol wahanol: canig, 'Y cychod ar yr afon', cytgan i leisiau cymysg, 'Maesgarmon', sef trefniant o 'Ryfelgyrch Gwŷr Harlech', deuawd, 'O mor hardd a breuddwyd awen'; anthem, 'Pebyll yr Arglwydd'; ac unawd, 'Ysgydwad y llaw'. 'Myfanwy', rhangan i leisiau meibion, oedd y chweched. Mae'n arwyddocaol taw Mynyddog a luniodd eiriau Cymraeg i bedwar o'r darnau hyn (yr eithriadau oedd 'Y cychod ar yr afon' a 'Pebyll yr Arglwydd').

Y gyfres hon oedd yr unig ddarnau o waith Joseph Parry a gyhoeddodd Isaac Jones, gŵr a faged yng Nghwm Tawe ac a sefydlodd fusnes argraffu yn Nhrefherbert yn 1872, ac a fu'n argraffu a chyhoeddi yno tan ei farw yn 1899. Cyhoeddodd lyfrynau o gerddi gan feirdd lleol a gweithiau mwy swmpus megis cyfrol o bregethau Islwyn; ond ei brif gyfraniad oedd ei waith yn cyhoeddi cerddoriaeth, a chylchgrawn cerddorol, *Cronicl y Cerddor*, a ymddangosodd o fis Gorffennaf 1880 hyd fis Mehefin 1883. Dechreuodd

gyhoeddi cerddoriaeth tua 1874, ac roedd cyfres 'Telyn Cymry' gyda'r pethau cynharaf a ddaeth o'i wasg.

Perfformiwyd 'Myfanwy' gyntaf (yn Gymraeg, mae'n ymddangos) yng nghyngerdd agoriadol yr 'Aberystwyth and University Musical Society', 21 Mai 1875, mewn rhaglen nodweddiadol lawn o weithiau Parry ei hun.<sup>5</sup> Fe'i hadolygwyd yn *Y Gerddorfa* fis Mehefin 1875 (cyf. 3, t. 44):

Hynodir y gân fechan hon gan ei symledd ... Dibyna effaith y darn a'r [sic] goethder y lleisiau, ac iawn ddefnyddiad o'r cryf a'r gwan, &c., ond talu sylw priodol i hyn bydd y gân, yn sicr o fod yn dra effeithiol ...

Ddeng mlynedd yn ddiweddarach, fis Hydref 1885, ymddangosodd adolygiad ar argraffiad Americanaidd o'r gân yn *Cerddor y Cymry*, lle y dywedir am 'Myfanwy' ei bod yn 'adnabyddus yn y wlad hon' (cyf. 3, t. 51).

Mae'n sicr i'r gân gael ei chanu droeon cyn marw Joseph Parry yn 1903. Ond efallai taw Côr Orffews Treforus o dan arweiniad Ivor E. Sims a ddaeth â hi i binacl ei phoblogrwydd yn y ganrif hon, ac erbyn hynny nid cwmni Isaac Jones oedd yn ei chyhoeddi. Yn 1930 gwerthwyd teitlau cerddorol ei wasg ef i D.J. Snell yn Abertawe, ac ef a ail-gyhoeddodd 'Myfanwy' yn 1931. Mae cwmni Snell a'i Feibion yn dal i werthu copïau, gymaint yw ei phoblogrwydd; ac nid yw'n ymddangos y bydd dim bellach yn rhwystro ymdaith anorchfygol y gân a anwyd yn Nhrefherbert yn 1875. Yn gam neu'n gymwys, aeth 'Myfanwy' yn rhan o gynhyrfaeth y Cymry.

---

<sup>5</sup> Edward Edwards, 'Hanes cynnar canu yng Ngholeg Aberystwyth', *Y Cerddor*, ail gyfres, cyf. 2 (1932), t. 299-301.